



Crynodeb Gweithredol - Llais y Dysgwr i Ysgolion



Ymchwil

Dogfen ymchwil Rhif: 039/2009
Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2009



ISBN 978 0 7504 5219 9

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2009

CMK-22-07-402

E1220910

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	2
1.1 Blwyddyn 10 ac 11	3
Dewis a Chyfle	3
Cymhelliant/problemau a wynebwyd	5
Bwriadau yn y dyfodol	6
Bodddhad â'r addysgu	7
Bodddhad cyffredinol â'r profiad	7
Llwybrau14-19	8
1.2 Blwyddyn 12 a 13	11
Dewis a Chyfle	11
Cymhelliant/problemau a wynebwyd	12
Bodddhad â'r addysgu	13
Bodddhad cyffredinol	14
Llwybrau14-19	15
Cymariaethau â 2004	16
1.3 Casgliadau	17

Crynodeb Gweithredol

Cynhaliwyd Arolwg Llais y Dysgwyr i Ysgolion 2008 fel rhan o Raglen Ymchwil i Gwsmeriaid 2007-2010 APADGOS. Yn ystod cam cychwynnol y rhaglen, pwysleisiodd llawer o arweinyddion fod angen ystyried barn dysgwyr fel rhan o'r broses o asesu gwelliant ac effeithiolrwydd ysgol. Nod yr arolwg hwn oedd:

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am foddhad dysgwyr a mesurau cysylltiedig ar gyfer myfyrwyr yn y chweched dosbarth mewn ysgolion (Blwyddyn 12 a 13)
- gosod mesur sylfaenol ar gyfer boddhad dysgwyr a phynciau cysylltiedig ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 10 ac 11, gan gyfeirio'n benodol at agenda Llwybrau Dysgu 14-19.

Rhodddwyd holiaduron papur ar wahân i fyfyrwyr Blwyddyn 10 ac 11 a Blwyddyn 12 a 13 i'w cwblhau. Y meysydd pwnc bras a gwmpaswyd yn y ddau holiadur oedd: dewis; ansawdd yr addysgu; llwybrau dysgu; boddhad â'r addysgu a boddhad â'r profiad dysgu. Cafwyd ymatebion gan 2,018 o fyfyrwyr o Blwyddyn 10 ac 11, a 1,783 o fyfyrwyr Blwyddyn 12 a 13.

1.1 Blwyddyn 10 ac 11

Roedd yr holiadur ar gyfer y grwpiau blwyddyn hyn yn cynnwys yr agweddau canlynol ar brofiad dysgu myfyrwyr:

- *dewis a chyfle*: rhesymau dros ddewis y pynciau/cymwysterau ac a oedd y cyrsiau a astudiwyd ar y pryd yn cyfateb i'r rhai yr oedd y myfyrwyr am eu gwneud fwyaf
- *cymhelliant a'r problemau a gafwyd*: lefelau cymhelliant cyffredinol ac unrhyw broblemau a gafwyd ym Mlwyddyn 10 ac 11
- *bodddhad â'r addysgu*: bodddhad ag agweddau ar addysgu
- *mesurau i ystyried bodddhad cyffredinol â'r profiad dysgu*: cytuno â rhestr o ddatganiadau yn ymwneud â diogelwch, cynnwys y dysgwr, meithrin y dysgwr a bodddhad cyffredinol â'r dysgu yn yr ysgol.

Dewis a Chyfle

Mae'r ymatebion i'r arolwg yn dangos bod y graddau y mae'r dewisiadau a'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr yn bodloni eu gofynion, o ran y dewis o bynciau a'r cymwysterau i'w hennill, yn bwysig er mwyn cynnal cymhelliant a bodddhad myfyrwyr â'u profiadau dysgu.

Mwynhau'r pynciau yr oeddent yn eu hastudio oedd y rheswm mwyaf cyffredin ymhlith myfyrwyr Blwyddyn 10 ac 11 dros ddewis pynciau a chymwysterau - nodwyd hyn gan 85% o ymatebwyr. Roedd rhesymau'n ymwneud â chamu ymlaen mewn perthynas â gyrfa neu ddysgu y tu hwnt i Flwyddyn 10 ac 11 yn bwysig hefyd, gyda 43% yn nodi bod angen y pynciau neu'r cymwysterau arnynt ar gyfer y swydd yr oeddent am ei gwneud a 21% yn dweud bod angen y pynciau i symud ymlaen i'r chweched dosbarth neu'r coleg.

Efallai nad yw'n syndod bod yr ymatebwyr o Flwyddyn 10 ac 11 a oedd yn astudio cymwysterau galwedigaethol yn fwy tebygol na'r rhai a oedd yn astudio pynciau TGAU i nodi eu bod wedi dewis y pwnc/cymhwyster oherwydd bod ei angen arnynt ar gyfer y swydd yr oeddent am ei gwneud yn y dyfodol. Er enghraifft, nododd dros chwech allan o ddeg o'r rhai a oedd yn astudio NVQ (64%) neu gymwysterau galwedigaethol eraill (63%) y rhesymau hyn, o gymharu â 43% o'r rhai a oedd yn astudio pynciau TGAU.

Roedd gwahaniaethau rhwng ymatebwyr o Flynyddoedd 10 ac 11, gyda chyfraddau sylweddol uwch o'r cyntaf (51% o gymharu â 36%) yn nodi bod angen y cymwysterau arnynt ar gyfer y swydd yr oeddent am ei chael a'r olaf yn nodi bod angen y cymwysterau arnynt i fynd i Flwyddyn 12 (24% o gymharu â 18%).

Roedd myfyrwyr a oedd yn dangos lefelau uwch o gymhelliant hefyd yn fwy tebygol o ddewis eu pynciau a'u cymwysterau yn seiliedig ar yr hyn roeddent yn credu bod ei angen arnynt ar gyfer y swydd yr oeddent am ei gwneud. Gall hyn fod yn arwydd o ymagwedd sy'n canolbwyntio mwy ar nodau addysg.

Soniwyd am ffigyrau dylanwadol amrywiol fel rhesymau dros ddewis pynciau, sef rhieni (a nodwyd gan 33% o'r ymatebwyr), athrawon (23%) a Chynghorydd Gyrfa Cymru (8%). Mae'r ffaith bod cyngor gan y ffynonellau hyn wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar ddewis pwnc yn bwysig. Mae'n amlygu pwysigrwydd sicrhau bod rhieni yn hyddysg am y dewisiadau sydd ar gael i'w plant, goblygiadau'r dewisiadau a wneir a'r lefel uchel o gyfrifoldeb sydd gan athrawon a chynghorwyr gyrfaeodded ar y lefel hon hefyd. Ymddangosodd gwahaniaethau yn y ffynonellau cyngor a ddefnyddiwyd yn ôl rhyw: roedd bechgyn a merched yn fwy tebygol o gyfeirio at gyngor rhieni na chynghor athrawon neu Gyrfa Cymru fel rhesymau dros ddewis eu pynciau, ond roedd merched yn llawer mwy tebygol na bechgyn o sôn am rieni (37% o gymharu â 31%) ac athrawon (26% o gymharu ag 20%).

Roedd y myfyrwyr yr oedd eu rhestr o gyrсияu'n cynnwys Sgiliau Allweddol, Bagloriaeth Cymru a Sgiliau Sylfaenol yn fwy tebygol o fod wedi seilio'u penderfyniadau ar gyngor a gafwyd gan eu hathrawon (32%, 36% a 46% yn y drefn honno o gymharu â 23% yn gyffredinol). Mae hyn yn awgrymu bod athrawon yn ddylanwadol iawn o ran codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu'r opsiynau hyn lle roeddent o'r farn ei fod yn briodol.

Roedd y mwyafrif helaeth o fyfyrwyr (82%) yn astudio eu dewis cyntaf o bynciau a chymwysterau. Mae cysylltiad rhwng astudio eu dewis cyntaf o gwrs neu gymwysterau a myfyrwyr yn dangos lefelau uwch o gymhelliant a boddhad. Er na all y dadansoddiad profi'r rheswm dros hyn, gallwn ddod i'r casgliad bod boddhad a chymhelliant ar eu huchaf mewn amgylchedd lle mae myfyrwyr yn dysgu eu dewis cyntaf.

Y prif resymau pam nad oedd myfyrwyr yn astudio eu dewis cyntaf o ran pwnc a chymwyster oedd:

- nid oedd yr ysgol neu ysgolion lleol yn cynnig y pynciau neu'r cymwysterau a ddymunwyd (31%)
- roedd y dewis cyntaf o bwnc neu gymhwyster eisoes yn llawn (30%)
- nid oedd eu dewisiadau cyntaf yn cyd-fynd â'u hamserlenni (30%).

Cymhelliant/problemau a wynebwyd

Roedd bron tri chwarter (73%) o fyfyrwyr Blwyddyn 10 ac 11 yn dangos cymhelliant o ran eu hastudiaethau, gyda 61% yn nodi eu bod yn eithaf cryf eu cymhelliant a 12% yn dweud eu bod yn gryf iawn eu cymhelliant. Nododd un rhan o bump nad oedd ganddynt fawr o gymhelliant (20%) ac nid oedd gan 2% unrhyw gymhelliant o gwbl.

Er nad oedd gwahaniaethau o ran rhyw nac ethnigrwydd yn y cyfraddau a nododd eu bod yn gryf iawn neu'n eithaf cryf eu cymhelliant, roedd y myfyrwyr â mwy o gymhelliant yn dueddol o berthyn i'r categorïau canlynol:

- yn fodlon ar eu profiadau dysgu ar y cyfan (97% yn fodlon iawn ar eu profiadau o gymharu â 30% nad oeddent yn fodlon)
- yn astudio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (83% o gymharu â 71% a oedd yn astudio mewn mannau eraill).

- yn astudio eu dewis cyntaf o gwrs (76% o gymharu â 63% nad oeddent yn gwneud hynny)
- heb salwch nac anabled cyfyngol hirdymor (75% o gymharu â 59% o'r rhai â salwch neu anabled).

Er i 22% o fyfyrwyr ddweud nad oeddent wedi cael unrhyw broblemau ers dechrau eu blwyddyn ysgol bresennol, y tair problem fwyaf cyffredin oedd:

- ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen (29%)
- problemau o unrhyw fath gydag aelod o staff (28%)
- problemau o unrhyw fath gyda disgyblion eraill (27%).

Roedd cysylltiad clir rhwng p'un a oedd myfyriwr yn astudio ei ddewis cyntaf o bwnc a'i debygolrwydd o gael problemau. Roedd hefyd yn wir bod myfyrwyr Blwyddyn 11 yn dueddol o gael problemau wrth gynnal cymhelliant i raddau mwy na myfyrwyr Blwyddyn 10 (27% o gymharu â 18%). Nododd cyfradd sylweddol uwch o'r rhai a oedd yn astudio NVQ neu gymwysterau galwedigaethol eraill (41% ym mhob achos o gymharu â 29% o'r holl ymatebwyr) iddynt gael problemau'n ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen. Heb fod yn syndod, roedd y rhai a fynegodd lefelau uwch o anfodhad â'u profiadau dysgu yn fwy tebygol o gael problemau hefyd.

Bwriadau yn y dyfodol

Roedd yr hyn yr oedd myfyrwyr Blwyddyn 10 ac 11 yn bwriadu ei wneud yn y dyfodol yn adlewyrchu tueddiadau o ran lleoliadau ôl-16 yn fras, gyda'r mwyafrif yn dweud y byddent yn mynd i'r coleg (59%) neu'n aros yn yr ysgol (31%). Roedd ychydig dros un rhan o bump (22%) yn bwriadu chwilio am waith rhan amser (yn aml ar y cyd ag astudiaethau eraill). Soniodd ychydig dros un o bob deg am swydd gyda Phrentisiaeth Fodern (13%).

Roedd myfyrwyr a oedd yn dangos lefelau uwch o gymhelliant a boddhad yn llawer mwy tebygol o ystyried parhau â'u haddysg mewn coleg/chweched dosbarth ysgol y tu hwnt i Flwyddyn 11.

Bodddhad â'r addysgu

Gofynnwyd i ymatebwyr raddio gwahanol agweddau ar addysgu gan ddefnyddio graddfa pum pwynt yn amrywio o da iawn i gwael iawn (gyda chanolbwynt). Cofnodwyd lefelau uchel o foddhad ar gyfer: gwneud defnydd da o amser gwersi; gallu egluro'r pwnc; y cymorth a roddwyd; a gosod targedau clir er mwyn helpu'r myfyriwr i wella. Y tair agwedd a gafodd y graddau isaf oedd: gwrando ar anghenion y myfyriwr; gwneud y pwnc yn ddiddorol ac yn ddifyr; a deall y myfyriwr a sut mae'n hoffi dysgu.

Yn gyffredinol, mynegodd 78% o ymatebwyr foddhad ag ansawdd yr addysgu. Dim ond 5% oedd yn anfodlon ac nid oedd 11% yn fodlon nac yn anfodlon.

Bodddhad cyffredinol â'r profiad

Roedd y mwyafrif helaeth o fyfyrwyr (84%) yn fodlon i ryw raddau ar eu profiad dysgu cyffredinol. Roedd y rhan fwyaf yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon (40% a 37% yn y drefn honno) yn wahanol i hynod o fodlon (7%). Nid oedd bron i un o bob deg yn fodlon nac yn anfodlon (8%) a chymharol brin oedd y rhai a oedd yn anfodlon i ryw raddau (4%).

Ymhlith yr amrywiadau sylweddol rhwng is-grwpiau o fyfyrwyr, nodwyd y canlynol:

- roedd myfyrwyr ag anabledd cyfyngol hirdymor yn llai bodlon i ryw raddau (77% o gymharu ag 88% o'r rhai heb anabledd o'r fath)
- roedd myfyrwyr a oedd yn astudio eu dewis cyntaf o bynciau yn llawer mwy tebygol o fod yn fodlon i ryw raddau (88%) na'r rhai nad oeddent yn gwneud hynny (74%) neu'r rhai a oedd o'r farn na chawsant ddewis o ran eu hopsiynau (72%)
- roedd myfyrwyr a oedd yn astudio Bagloriaeth Cymru fwyaf tebygol o fod yn fodlon ar eu profiadau dysgu (90% o gymharu ag 84% ar gyfartaledd). Roedd y sawl a oedd yn astudio NVQ leiaf tebygol o fod yn fodlon i ryw raddau (76%).

Efallai nad yw'n syndod bod cysylltiad rhwng lefelau o gymhelliant a boddhad cyffredinol. Roedd 96% o'r rhai a oedd 'yn gryf iawn eu cymhelliant' yn fodlon i ryw raddau, o gymharu â 32% o'r rhai 'heb unrhyw gymhelliant o gwbl'.

Roedd myfyrwyr fwyaf tebygol o nodi'n ddigymell ansawdd y dysgu a ffrindiau a wnaed ganddynt fel yr agweddau yr oeddent yn eu hoffi fwyaf am eu hysgol (36% a 27% yn y drefn honno). Roedd yr agweddau yr hoffent eu newid fwyaf yn ymwneud ag athrawon (17%), ansawdd y ddarpariaeth ddysgu (14%), amgylchedd/awyrgylch (11%), disgyblaeth a'r ffreutur/bwyd (9% ym mhob achos).

Llwybrau 14-19

Mewn perthynas â Llwybrau Dysgu 14-19, mae'r paragraffau isod yn sôn am foddhad a chymhelliant myfyrwyr Blwyddyn 10 ac 11 yn y chweched dosbarth mewn ysgolion a gynigai Gymhwyster Bagloriaeth Cymru ac NVQ yn ogystal ag unrhyw amrywiad yn y data ymhlith ymatebwyr a oedd yn dysgu ar safle arall (nad oedd yn rhan o'u hysgol) ac felly'n cymryd rhan mewn darpariaeth ar y cyd.

Roedd bron pob un o fyfyrwyr Blwyddyn 10 ac 11 yn astudio o leiaf un TGAU (97%) ac ar ôl pwysoli'r data:

- roedd 4% o'r cyfanswm (89 o fyfyrwyr) yn astudio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (dywedodd 70% ohonynt yr addysgwyd yr holl ddsbarthiadau yn eu hysgol).
- roedd 5% o'r cyfanswm (110 o fyfyrwyr) yn astudio NVQ (dywedodd 70% ohonynt yr addysgwyd yr holl ddsbarthiadau ar y safle).
- soniodd 5% (107 o fyfyrwyr) am naill ai'r diploma, tystysgrif alwedigaethol a/neu'r dyfarniad galwedigaethol (dywedodd 74% ohonynt yr addysgwyd yr holl ddsbarthiadau yn eu hysgol).
- dywedodd cyfanswm o 173 o ddysgwyr bod o leiaf rai o'u gwersi wedi'u haddysgu ar safle arall neu gan ddarparwr arall.

O'r sawl a oedd yn dilyn y cyrsiau neu'n cael yr hyfforddiant a nodwyd uchod:

- roedd boddhad cyffredinol â'r addysgu ar y lefel 'pawb yn fodlon' ychydig yn is, ond nid yn sylweddol, ar gyfer y rhai a oedd yn dilyn cyrsiau NVQ a chysiau galwedigaethol eraill (diploma, tystysgrif a dyfarniad). O'r sawl a oedd yn dilyn Bagloriaeth Cymru roedd lefelau boddhad yn debyg iawn i'r cyfartaledd cyffredinol
- roedd myfyrwyr a oedd yn dilyn Bagloriaeth Cymru yn llawer mwy tebygol o fod â chymhelliant cryf na'r rhai a oedd yn dilyn NVQ a'r rhai a oedd yn dilyn TGAU (20% o gymharu ag 8% a 12% yn y drefn honno) ac roedd dros wyth o bob deg (81%) â chymhelliant i ryw raddau (o gymharu â 73% yn gyffredinol)
- roedd boddhad â'r profiad yn gyffredinol yn uchel ar gyfer y sawl a oedd yn dilyn Bagloriaeth Cymru (90% yn fodlon i ryw raddau o gymharu ag 84% yn gyffredinol). Roedd boddhad yn sylweddol is ar gyfer y sawl a grybwyllodd NVQ fel rhan o'u cyrsiau (77% yn fodlon ar y cyfan o gymharu â 90% a oedd yn astudio Bagloriaeth Cymru ac 85% a oedd yn astudio TGAU).

O ran y sawl a oedd yn cael darpariaeth ddysgu ar y cyd:

- roedd cyfrannau tebyg yn cydnabod eu bod yn astudio eu dewis cyntaf o bynciau neu gymwysterau (dywedodd 80% eu bod wedi cael eu dewis cyntaf o gymharu ag 84% o'r rhai yr oedd eu gwersi i gyd ar un safle)
- nododd myfyrwyr a oedd yn cael darpariaeth ddysgu ar y cyd lefelau tebyg o foddhad cyffredinol â'r addysgu (76% yn fodlon i ryw raddau o gymharu ag 80% o fyfyrwyr yr oedd eu gwersi i gyd ar un safle)
- nid oedd gwahaniaethau sylweddol mewn perthynas â phroblemau a gafwyd a lefelau cymhelliant
- rhoddwyd ymateb tebyg i'r holl ddatganiadau'n disgrifio'r ysgol, ei hamgylchedd a'r cymorth gydag ond un agwedd yn dangos gwahaniaeth sylweddol: roedd myfyrwyr a oedd yn cael eu haddysg ar fwy nag un safle yn llawer llai tebygol o gytuno eu bod yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnir gan yr ysgol (56% o gymharu â 67% o'r rhai a oedd yn mynd i un safle yn unig)

- nid oedd lefelau boddhad cyffredinol yn wahanol iawn ar lefel 'cwbl fodlon' (roedd 79% yn fodlon o gymharu ag 86% a oedd yn astudio ar un safle). Fodd bynnag, roedd myfyrwyr Blwyddyn 10 ac 11 a oedd yn cael rhai gwersi ar safle gwahanol yn llai tebygol o nodi eu bod yn fodlon iawn (25% o gymharu â 43%) ac yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn eithaf bodlon (44% o gymharu â 25%) na'u cyfoedion a oedd yn cael eu holl wersi ar un safle.
- o ran bwriadau yn y dyfodol, roedd myfyrwyr a oedd yn cael rhai gwersi y tu allan i'r ysgol yn llawer llai tebygol o fod am fynd i flwyddyn 12 yn yr ysgol honno (11% o gymharu â 33% o fyfyrwyr a oedd yn cael eu holl wersi ar un safle). Roedd cyfran sylweddol uwch o fyfyrwyr Blwyddyn 10 ac 11 a oedd yn cael darpariaeth ddysgu ar y cyd yn gobeithio astudio ar gyfer Prentisiaeth Fodern (25% o gymharu ag 11% o'r rhai nad oeddent yn cael darpariaeth o'r fath) a/neu'n dymuno cael swydd llawn amser heb Brentisiaeth Fodern (9% o gymharu â 4%).

1.2 Blwyddyn 12 a 13

Dewis a Chyfle

Ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 12 a 13 parhad amgylchedd a chydberthnasau cymdeithasol oedd y ffactorau allweddol a ddylanwadodd ar eu penderfyniad i astudio yn yr ysgol lle roeddent ym Mlwyddyn 11. Y prif resymau a roddwyd am ddewis ysgol oedd:

- mynychu'r un ysgol cyn Blwyddyn 12 a 13 (85%)
- cynnal cysylltiadau cymdeithasol (52%)
- yr ysgol yn cynnig y cwrs a ddymunwyd a/neu'n lleoliad cyfleus (51% ym mhob achos).

Yn gyffredinol, roedd bron pedwar o bob pump o fyfyrwyr (78%) yn astudio eu dewis cyntaf o bynciau a chymwysterau. Nid oedd 16% yn astudio eu dewis cyntaf.

Fel gyda myfyrwyr Blwyddyn 10 ac 11, roedd cysylltiad cryf rhwng y gallu i gael y dewis cyntaf o ysgol a lefelau cymhelliant a boddhad. Gwelwyd cysylltiad tebyg o ran astudio'r dewis cyntaf o bynciau neu gymwysterau a chynnal eu hymgysylltiad. Roedd myfyrwyr a oedd wedi ystyried gadael yr ysgol yn llai tebygol o fod yn astudio eu dewis cyntaf o bynciau a chymwysterau (70%) na'r sawl nad oeddent wedi ystyried gadael yr ysgol (85%). Mae hyn yn ategu pwysigrwydd sicrhau bod myfyrwyr yn ymgysylltu'n ymwybodol â'r holl gysyniad o ddewis a chyfle a bod y pynciau neu'r cymwysterau a astudir, lle y bo'n bosibl, yn diwallu eu hanghenion, arddull dysgu, gallu a/neu ddiddordeb.

Nododd ychydig dros hanner (53%) y myfyrwyr ym Mlwyddyn 12 a 13 nad oeddent yn gallu astudio'u dewis cyntaf o bynciau a chymwysterau mai oherwydd nad oeddent yn cyd-fynd â'u hamserlenni oedd hynny. Roedd y sefyllfa hon yn fwy amlwg ym Mlwyddyn 13 nag ymhlith eu cymheiriaid ym Mlwyddyn 12 (67% yn methu â'u cynnwys yn eu hamserlenni o gymharu â 47% yn y drefn honno). Er nad oedd chwarter y myfyrwyr yn gallu astudio eu dewis cyntaf o gyrsiau gan nad oedd eu hysgol neu ysgolion lleol eraill yn cynnig y cymwysterau neu'r pynciau a ddymunwyd (26%), roedd hyn yn fwy o broblem i ferched (32%) nag i fechgyn (17%).

Roedd bechgyn yn fwy tebygol na merched o fod wedi cael eu cynghori i beidio â dilyn eu dewis gan athrawon (20% o gymharu ag 8%).

Cymhelliant/problemau a wynebwyd

Nodwyd bod gan y grwpiau canlynol lefelau uwch o gymhelliant:

- myfyrwyr a oedd yn fodlon ar eu profiadau dysgu (92% o'r rhai a oedd yn hynod fodlon o gymharu â 33% o'r rhai a oedd yn anfodlon).
- y rhai a oedd yn mynychu eu dewis cyntaf o ysgol (75% o gymharu â 43% nad oeddent yn gwneud hynny)
- myfyrwyr a oedd yn cael cymorth ychwanegol (74% o gymharu â 58% o fyfyrwyr heb gymorth ychwanegol)
- y rhai o oedd yn astudio eu dewis cyntaf o gwrs (72% o gymharu â 55% o'r rhai nad oeddent yn gwneud hynny)
- ymatebwyr gwyn (dywedodd 70% fod ganddynt eithaf tipyn o gymhelliant neu lawer o gymhelliant, o gymharu â 58% o'r rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig)
- myfyrwyr heb anabledd dysgu (70% o gymharu â 58% o'r rhai ag anabledd dysgu)

Y tair problem fwyaf cyffredin a wynebwyd gan fyfyrwyr ym Mlwyddyn 12 a 13 oedd: cynnal cymhelliant personol (48%); ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen (33%); a phroblemau o unrhyw fath gydag aelod o staff (20%).

Mae'r data'n awgrymu cysylltiad rhwng profiad myfyrwyr o broblemau a'u lefelau o gymhelliant. Roedd y rhai a ddywedodd nad oedd ganddynt lawer o gymhelliant neu ddim o gwbl yn eu hastudiaethau yn fwy tebygol o nodi eu bod wedi cael problemau, yn arbennig yn ymwneud ag:

- ymdopi â'r safon o waith sydd ei hangen (61% o'r rhai heb ddim cymhelliant o gwbl o gymharu ag 16% o'r rhai â llawer o gymhelliant a 47% o'r rhai ag eithaf tipyn o gymhelliant)
- cael problemau o unrhyw fath gydag aelod o staff (33% o'r rhai heb lawer o gymhelliant o gymharu ag 18% o'r rhai â llawer o gymhelliant a 18% o'r rhai ag eithaf tipyn o gymhelliant).

Roedd bron i draean (32%) wedi ystyried gadael yr ysgol o ddifrif ers dechrau ym Mlwyddyn 12. Nid oedd gwahaniaethau yn ôl rhyw, blwyddyn ysgol nac ethnigrwydd, ond roedd dros hanner (56%) y rhai ag anabledd dysgu wedi ystyried yr opsiwn hwn. Daeth gwahaniaeth i'r amlwg hefyd rhwng y rhai a oedd yn astudio ar gyfer Safon Uwch a'r rhai a oedd yn astudio TGAU a chymwysterau galwedigaethol (31%, 47% a 56% yn y drefn honno wedi ystyried gadael). Er y gellir disgwyl y byddai'r rhai nad oeddent yn dilyn cyrsiau Safon Uwch yn debygol o ystyried gadael er mwyn achub ar gyfleoedd, mae'n syndod bod bron i draean o'r rhai a oedd yn astudio Safon Uwch, ac a allai fod wedi cael eu hystyried yn ymgeisio am le mewn addysg uwch, yn ystyried tynnu yn ôl. Mae'r data'n awgrymu bod rhywfaint o ailwerthuso yn anochel a bydd nifer o fyfyrwyr sy'n ystyried dewisiadau amgen bob amser. Efallai mai'r mater pwysig a ddangosir yw nad oes unrhyw fath o gwrs yn rhydd o ddadurithiad ac mae angen rhoi systemau cymorth ar waith i gadw myfyrwyr sydd mewn perygl o adael.

Roedd y rhai a oedd yn ystyried gadael yr ysgol yn fwy tebygol o: beidio â bod yn astudio yn eu dewis cyntaf o ysgol; peidio â bod yn astudio eu dewis cyntaf o bwnc; a dangos lefelau is o gymhelliant a boddhad cyffredinol.

Boddhad â'r addysgu

Nodwyd lefelau uchel o foddhad mewn nifer o agweddau ar addysgu. Roedd y mwyafrif helaeth o fyfyrwyr Blwyddyn 12 a 13 (86%) yn fodlon i ryw raddau ag ansawdd cyffredinol yr addysgu. Graddiodd o leiaf saith allan o ddeg o fyfyrwyr athrawon yn eithaf da neu'n dda iawn o ran y cymorth a roddwyd, ansawdd ac argaeledd y deunyddiau addysgu a ddefnyddiwyd, y ffaith eu bod yn gwrandao ar anghenion y myfyrwyr, y defnydd da o amser y wers a'r gallu i egluro'r pwnc.

Graddiodd o leiaf ddwy ran o dair o'r myfyrwyr athrawon yn eithaf da neu'n dda iawn o ran rhoi adborth prydlon a rheolaidd ar gynnydd (66%), gwneud y pwnc yn ddiddorol ac yn ddifyr (68%) a gosod targedau clir i helpu myfyrwyr i wella (67%).

Roedd y graddau ar eu hisaf ar gyfer deall y myfyriwr a sut mae'n hoffi dysgu (60%) a delio â dysgwyr aflonyddgar (63%).

Roedd myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig yn llai cadarnhaol am berfformiad athrawon a hynny'n gyson. Mewn gwrthgyferbyniad, roedd merched a'r rhai a oedd yn cael cymorth ychwanegol yn fwy tebygol o raddio agweddau ar addysgu yn dda iawn neu'n eithaf da a hynny'n gyson.

Bodddhad cyffredinol

O ran y cwrs yn bodloni disgwyliadau ar lefelau amrywiol, roedd ymatebwyr fwyaf cadarnhaol am 'safon y gwaith sydd ei hangen' a 'faint o waith sydd ei angen'. Roedd ymatebion leiaf cadarnhaol am 'arddulliau a dulliau addysgu a ddefnyddir yn y gwersi' lle roedd tebygolrwydd uwch o beidio â chael disgwyliadau o gwbl ac felly roedd cyfran y rhai y bodlonwyd eu disgwyliadau'n eithaf isel (52%).

O ran bodddhad cyffredinol â'u profiadau dysgu, dywedodd ychydig dros un o bob ugain (6%) eu bod yn hynod fodlon a dywedodd traean arall (32%) eu bod yn fodlon iawn. Dywedodd bron hanner eu bod yn eithaf bodlon (46%). Felly, roedd y mwyafrif helaeth o fyfyrwyr (83%) yn fodlon i ryw raddau â'u profiadau cyffredinol. Nododd canrannau llawer llai nad oeddent yn fodlon nac yn anfodlon (9%) neu eu bod yn anfodlon i ryw raddau (5%).

Roedd y grwpiau canlynol yn fwy tebygol o lawer o fod yn fodlon â'u profiadau dysgu cyffredinol:

- y rhai a oedd yn astudio eu dewis cyntaf o bwnc/cymhwyster (nododd 88% ryw radd o foddhad o gymharu â 71% nad oeddent yn astudio eu dewis cyntaf)
- y rhai a oedd yn mynychu eu dewis cyntaf o ysgol (nododd 88% ryw radd o foddhad o gymharu â 74% nad oeddent yn mynychu eu dewis cyntaf o ysgol a 65% nad oedd ganddynt ddewis)
- myfyrwyr heb anawsterau dysgu o gymharu â'r rhai ag anawsterau (nododd 86% ryw lefel o foddhad o gymharu â 75% ag anawsterau)
- roedd myfyrwyr Blwyddyn 13 yn fwy tebygol o lawer o fod yn 'hynod fodlon' (11% o gymharu â 5% ym Mlwyddyn 12).

Fel y disgwyliwyd, roedd cysylltiad rhwng lefelau cymhelliant, graddau ansawdd yr addysgu a'r tebygolrwydd o ystyried gadael.

Llwybrau 14-19

Mewn perthynas â Llwybrau Dysgu 14-19, mae'r paragraffau isod yn trafod myfyrwyr Blwyddyn 12 a 13 yn y chweched dosbarth mewn ysgolion a gynigai Gymhwyster Bagloriaeth Cymru ac rydym yn adolygu unrhyw wahaniaethau barn hefyd ymhlith ymatebwyr a oedd yn cael darpariaeth ddysgu ar y cyd a'r rhai nad oeddent yn cael rhywfaint o ddysgu y tu allan i'r Chweched Dosbarth.

Ar ôl pwysoli'r data, ymhlith myfyrwyr Blwyddyn 12 a 13, roedd y mwyafrif helaeth yn dilyn Safon Uwch a/neu Safon UG (85% yn dilyn Safon Uwch a 46% yn dilyn Safon UG), gyda pherthnasedd uniongyrchol i agenda Llwybrau Dysgu 14-19:

- roedd 5% o'r cyfanswm (91 o fyfyrwyr) yn dilyn Lefel Uwch Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (dywedodd 93% ohonynt yr addysgwyd yr holl wersi yn eu chweched dosbarth)
- dywedodd cyfanswm o 173 o ddysgwyr (cyfanswm a bwysolwyd) fod o leiaf rywfaint o'u gwersi yn cael eu haddysgu ar safle arall neu gan ddarparwr arall.
- Nid oedd boddhad cyffredinol â'r addysgu a chymhelliant yn sylweddol uwch na'n is ar gyfer y rhai a oedd yn astudio Lefel Uwch Bagloriaeth Cymru. Fodd bynnag, roedd lefelau anfodddhad â'r profiad cyffredinol yn sylweddol uwch i'r rhai a oedd yn dilyn Lefel Uwch Bagloriaeth Cymru (11% yn anfodlon i ryw raddau o gymharu â 5% yn gyffredinol).

O ran y sawl a oedd yn cael darpariaeth ddysgu ar y cyd:

- nododd myfyrwyr a oedd yn cael darpariaeth ddysgu ar y cyd lefelau tebyg o foddhad cyffredinol â'r addysgu (roedd 85% yn fodlon i ryw raddau o gymharu ag 88% o fyfyrwyr yr oedd eu gwersi i gyd ar un safle)
- nid oedd gwahaniaethau sylweddol mewn perthynas â phroblemau a gafwyd a lefelau cymhelliant

- nid oedd lefelau boddhad cyffredinol yn wahanol iawn ar lefel 'cwbl fodlon' (roedd 79% yn fodlon o gymharu ag 85% a oedd yn astudio yn eu chweched dosbarth yn unig.

Cymariaethau â 2004

Mae nifer o wahaniaethau sylweddol yn nata 2008 o gymharu â data 2004 ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 12 a 13, sef:

Rhesymau dros fynychu: nododd llai o ddysgwyr enw da chweched dosbarth yr ysgol yn 2008 (-4% pwynt) yn ogystal â'r posibilrwydd o'r cyrsiau/pynciau gorau (-3% pwynt), ond roedd y ffaith bod ffrindiau'n mynychu'r ysgol wedi dod yn fwy dylanwadol (+1.6% pwynt)

- Dewis o ysgol a phynciau: o gymharu â 2004, roedd mwy o ddysgwyr yn yr arolwg diweddar o'r farn nad oedd ganddynt ddewis o ran ysgol/darparwr (+1.2% pwynt). Fodd bynnag, roedd gostyngiad yn y ganran o ddysgwyr na chafodd ei dewis cyntaf o bynciau (-2.7% pwynt).
- Lefelau cymhelliant a'r problemau a wynebwyd: roedd cymhelliant wedi gostwng yn sylweddol ers 2004 (roedd y ganran a oedd â llawer o gymhelliant/eithaf tipyn o gymhelliant wedi gostwng -3.5% pwynt). Roedd graddau'r problemau amrywiol a gafwyd wedi dirywio hefyd, a fyddai'n awgrymu nad dyma'r rheswm dros y gostyngiad mewn cymhelliant.
- Boddhad cyffredinol â'r addysgu a'r profiad: roedd perfformiad o ran un o'r ddau fesur hyn wedi cynyddu gydag amser - roedd canran y dysgwyr a oedd yn anfodlon â'r addysgu i ryw raddau wedi gostwng yn sylweddol (-1.5% pwynt); mae'r graddau ar gyfer boddhad cyffredinol wedi aros yn gyson gydag amser.

1.3 Casgliadau

Ar gyfer y ddau grŵp blwyddyn nododd y canfyddiadau lefelau cymharol uchel o foddhad cyffredinol â'r profiad dysgu, gan gynnwys yr addysgu a gafwyd a chymhelliant myfyrwyr. Wedi dweud hynny, roedd rhai cydberthnasau diddorol a gwahaniaethau sylweddol ar gyfer rhai grwpiau y dylid eu hystyried ymhellach er mwyn sicrhau'r profiad gorau posibl i bob myfyriwr.

Fodd bynnag, mynegodd dros draean o fyfyrwyr Blwyddyn 12 a 13 ddiffyg cymhelliant a bu gostyngiad bach yn y lefelau o gymhelliant o gymharu â 2004. Hefyd, dywedodd traean o fyfyrwyr Blwyddyn 12 a 13 iddynt ystyried gadael yr ysgol o ddifrif ers dechrau Blwyddyn 12. Roedd arwyddion bod rhai o'r myfyrwyr a arhosodd ôl-16 wedi gwneud hyn heb fod rhesymau clir a chadarnhaol dros wneud, a/neu nid oedd eu profiadau wedi bodloni eu disgwyliadau a'u dyheadau. Mae hyn yn amlygu'r angen am wybodaeth, cyngor ac arweiniad hyddysg, cywir a realistig.

Hefyd, lle roedd myfyrwyr yn ystyried gadael oherwydd nad oedd eu cyrsiau'n bodloni eu disgwyliadau, dylid rhoi sylw i ansawdd y ddarpariaeth a lefel y cymorth a gynigir i fyfyrwyr a allai gael anawsterau i gychwyn wrth ymdopi â chyfres newydd o ofynion.

Mae'r canfyddiadau hefyd yn amlygu'r rôl allweddol sydd gan rieni wrth roi cyngor i'w plant am y dewisiadau sydd ar gael iddynt. Felly, mae'r agenda o ran cynnwys rhieni yn bwysig iawn (gweler ystyriaethau polisi isod).

Yn gyffredinol, roedd myfyrwyr a oedd â mwy o gymhelliant, yn fwy bodlon ac yn llai tebygol o fod wedi ystyried gadael yr ysgol neu fod wedi cael problemau hefyd yn fwy tebygol o astudio yn eu dewis cyntaf o ysgolion a'u dewis cyntaf o gyrsiau. Nid yw'r data yn nodi'r achosion ond mae'r cysylltiad rhwng y dewisiadau a gafwyd a'r myfyrdodau mwy cadarnhaol am y profiad yn amlwg.

Y meysydd a nodwyd i'w hystyried o ran polisi oedd:

Angen sicrhau bod ystod eang o ddewisiadau ar gael i fyfyrwyr

- Roedd yn ymddangos bod lefelau cymhelliant a boddhad yn gysylltiedig â ph'un a oedd y myfyriwr yn astudio ei ddewis cyntaf o bynciau, yn ogystal â'r tebygolrwydd o gael problemau

yn ystod y flwydd yn ysgol bresennol. Yn sgîl y dystiolaeth o'r cydberthnasau hyn, dylid rhoi sylw arbennig i'r cyfraddau uwch o fyfyrwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a'r rhai sy'n astudio mewn ysgolion llai a/neu wledig nad oeddent yn gallu cael eu dewis cyntaf o bwnc/cwrs.

Dylid parhau i hyrwyddo proses o ddewis ymwybodol

- Mae cynnwys rhieni ar gam cynnar yn addysg eu plant yn hanfodol er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo'n bosibl, eu bod yn gwybod am y dewisiadau cwrs sydd ar gael i fyfyrwyr, ac y gallant gynnig asesiadau hyddysg o briodolrwydd y dewisiadau hyn ar gyfer gyrfaedd eu plant yn y dyfodol.
- Mae rôl Gyrfa Cymru ac athrawon sy'n rhoi cyngor ar ddewis cyrsiau a gyrfaedd yn hanfodol er mwyn lliniaru'r effeithiau gwael ar lwybrau gyrfa a hyder myfyrwyr (a achosir gan benderfyniadau amhriodol neu gamarweiniol). Dylid rhoi pwyslais ar greu ymwybyddiaeth ymhlith myfyrwyr a'u rhieni o arbenigedd, hygrededd ac amhleidioldeb Gyrfa Cymru ac athrawon. Dylid dechrau hyn ymhell cyn gwneud penderfyniadau hanfodol yn y cyfnod 14-19.
- O ystyried nad oedd gan dros chwarter y myfyrwyr ym Mlwyddyn 12 a 13 lawer o gymhelliant neu ddim o gwbl, dylid rhoi mwy o sylw i sicrhau bod y rhai sy'n dewis aros mewn addysg ar ôl 16 oed yn gwbl ymwybodol o a) y gwahanol ofynion academaidd; b) cynnwys y cyrsiau a ddilynir, a c) y cyfleoedd a'r llwybrau sydd ar gael ac sydd fwyaf priodol iddynt.

Targeddu cymorth - mewn perthynas â chyngor/arweiniad/astudio ac ati

- Mae'r canfyddiadau'n dangos bod angen rhoi cymorth wedi'i dargeddu i grwpiau o fyfyrwyr yr oedd eu hysgolion yn llai tebygol o fod wedi cynnig eu dewis cyntaf o bynciau a chymwysterau (o ran y broses o wneud penderfyniadau ac unwaith y bydd myfyrwyr wedi dechrau ar eu dewis gyrsiau).